

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Diwygio trefniadau Caffael y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl

Ar ran Llywodraeth Cymru, mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr wedi dechrau ar nifer o newidiadau i'r broses lle caiff myfyrrwyr cymwys o Gymru eu hasesu ar gyfer eitemau penodol o gymorth astudio a ariennir gan eu Lwfans Myfyrrwyr Anabl, a lle caiff yr eitemau hynny eu darparu.

Y newid mwyaf arwyddocaol yw i gaffael fframwaith o wasanaethau ar gyfer cyflenwi asesiadau o anghenion astudio a chyflenwi offer arbenigol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol cysylltiedig. Bydd y newid hwn yn y broses hefyd yn caniatáu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr fynd i'r afael â nifer o'r pwyntiau allweddol y mae myfyrrwyr wedi'u codi fel rhwystrau i broses y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, gan symleiddio'r broses er mwyn gallu rhoi cymorth yn gyflymach.

Bydd y newid yn y broses ond yn effeithio ar fyfyrrwyr anabl cymwys sy'n gwneud cais am gymorth Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl israddedig neu ôl-raddedig drwy wasanaeth Cyllid Myfyrrwyr Cymru. Mae'r newid hefyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer Adran Addysg y DU a gwasanaeth Cyllid Myfyrrwyr Lloegr.

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn caffael contractau ar gyfer Cymru a Lloegr drwy un ymarfer caffael.

Ni fydd yr ymarfer caffael yn cael unrhyw effaith ar Bolisi Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl Cymru, nac ar gymhwysedd na hawl myfyrrwyr i'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Nod yr ymarfer yw gwella profiadau myfyrrwyr o broses y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, gwella gwerth am arian i'r myfyriwr a'r trethdalwr a sicrhau goruchwyliaeth a gwell rheolaeth o ansawdd i fyfyrrwyr mewn perthynas â'r gwasanaeth.

Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn lwfans cymorth ychwanegol a delir i fyfyrrwyr anabl cymwys ar ben eu mathau eraill o gyllid i fyfyrrwyr, i'w helpu gyda'r costau cysylltiedig ag astudio hanfodol a ysgwyddir o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn anabl. Fe'i telir fel grant heb brawf modd.

Ar hyn o bryd, ar ôl i'r myfyriwr gael ei ystyried yn gymwys i gael Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl gan Cyllid Myfyrrwyr Cymru (tystiolaeth eu bod yn anabl yn unol â'r diffiniad a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010), mae'n gyfrifol am drefnu ei asesiad anghenion astudio ei hun i benderfynu pa gymorth sydd ei angen i sicrhau y gall gymryd rhan yn ei astudiaethau ar sail gyfartal. Yn dilyn yr asesiad hwn, caiff adroddiad ei lunio a'i anfon at Cyllid Myfyrrwyr Cymru i'w gymeradwyo. Ar ôl ei gymeradwyo, hysbysir y myfyriwr ei fod wedi cael cymorth yn unol ag argymhellion yr adroddiad a'i fod unwaith eto'n gyfrifol am drefnu i gyflenwi, cael ac

amserlennu unrhyw anghenion cymorth y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn academiaidd. Mae'r trefniadau presennol ond yn caniatáu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr dalu'r darparwyr a ddewiswyd ar ran y myfyriwr. Oherwydd strwythur y trefniadau, mae'n anodd i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr osod unrhyw ofynion ychwanegol ar gyflenwyr y gwasanaethau asesu, cyfarpar a hyfforddi i helpu i gael gwared ar rywfaint o'r gwaith gweinyddol yn y broses. Drwy ddisodli'r trefniadau presennol â chontractau ffurfiol, gall y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr nodi gofynion clir a heriol iawn darparwyr gwasanaethau. Bydd cynllun y contract yn arwain at ddull rhagweithiol o drefnu asesiadau o anghenion, technoleg gynorthwyl a chymorth hyfforddi i fyfyrrwyr. Bydd y cyfrifoldebau a roddir ar fyfyrrwyr ar hyn o bryd i drefnu'r rhain eu hunain ac yn uniongyrchol gyda chyflenwyr ar wahân yn cael eu disodli gan drefniant gwasanaeth 'siop un stop' lle bydd y cyflenwr yn tywys y myfyriwr drwy'r broses ac yn gwneud trefniadau ar ei ran. Bydd hyn yn dileu'r rhwystrau y mae myfyrrwyr wedi tynnu sylw atynt fel rhai sy'n achosi'r gwaith a'r rhwystrredigaeth fwyaf iddynt. Mae'r rhwystrau hyn hefyd yn achosi'r oedi sy'n golygu bod y broses bresennol yn cymryd dros 100 diwrnod i'w chwblhau.

Sut caiff y cyllid ei ddefnyddio?

Unig ddiben y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yw creu mynediad cyfartal i astudiaeth Addysg Uwch. Mae mynediad cyfartal i astudio yn cael ei sicrhau pan fydd myfyrrwyr anabl yn cael yr offer a'r cymorth cywir i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan yn eu hastudiaethau ochr yn ochr â myfyrrwyr nad ydynt yn anabl. Bydd y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn talu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag astudio nad ydynt yn cael eu talu o dan ddyletswyddau cyfreithiol y Darparwyr Addysg Uwch. Caiff y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ei hyrwyddo'n rheolaidd gan wasanaeth Cyllid Myfyrrwyr Cymru drwy gydol y flwyddyn a byddant yn tynnu mwy fyth o sylw ato cyn lansio cylch ymgeisio pob blwyddyn academiaidd. Drwy roi'r cyfrifoldeb am drefnu'r anghenion cymorth ar y cyflenwr dan gontract, bydd pob myfyriwr yn elwa ar wasanaeth cyson o ansawdd uchel. Bydd yr effaith wahanol y mae amhariadau neu gyflyrau iechyd myfyrrwyr yn ei chael ar eu gallu i symud ymlaen yn llwyddiannus drwy broses y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn cael ei dileu, a bydd y baich gweinyddol yn cael ei drosglwyddo i'r cyflenwr dan gontract. Bydd hyn yn creu dull mwy cyfartal o ymdrin â'r broses i fyfyrrwyr.

Beth yw'r effeithiau negyddol posibl ar bobl mewn grwpiau gwarchoddedig a'r rhai sy'n byw ar aelwydydd incwm isel, a sut y byddwch yn lliniaru'r rhain?

Dim ond i fyfyrrwyr ag amhariadau corfforol neu feddyliol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y dyfernir y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Gall pobl anabl uniaethu ag un neu ragor o'r grwpiau gwarchoddedig. Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr mewn perthynas â'r newid arfaethedig i'r broses yn edrych dim ond ar gwsmeriaid/myfyrrwyr ag amhariadau corfforol neu feddyliol. Er bod data yn cael eu casglu ar gyfer monitro cyfleoedd cyfartal, cedwir y rhain ar wahân i wybodaeth sy'n nodi'r amhariad, felly nid oeddent yn rhan o'r ymchwil. Er nad ydym yn disgwyl i'r newid gael

effaith negyddol, mae diffyg tystiolaeth i ddangos a fydd y newid yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol i unigolion sydd â mwy nag un nodwedd warchoddedig. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn monitro'r gwaith o gyflwyno'r broses newydd a bydd yn tynnu sylw at unrhyw ganlyniadau anfwriadol cyn gynted â phosibl.

Nid oes unrhyw ymchwil wedi'i chynnal mewn perthynas ag incwm aelwydydd myfyrrwyr sy'n cael y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl gan nad yw'r lwfans yn cael ei asesu ar sail incwm. Mae swm y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl sydd ar gael i fyfyriwr yn seiliedig ar ei anghenion cymorth astudio. Nid yw cymorth yn cael ei ddyrannu ar sail pro rata ar gyfer myfyrrwyr sy'n astudio'n rhan-amser nac yn cael ei leihau ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig. Mae hyn yn sicrhau bod myfyrrwyr sy'n astudio ar ddwysedd o 25% neu fwy, neu sy'n astudio ochr yn ochr â'u hymrwymiaid eraill, yn gallu cael yr un faint o gymorth â'r rhai sy'n astudio'n llawn amser. Cydnabyddir nad yw anghenion y myfyriwr yn newid yn amodol ar faint o amser y mae'n ei dreulio'n astudio, ac er y gall fod rhywfaint o wahaniaeth yn anghenion myfyrrwyr ar wahanol lefelau astudio, mae cynnal y cymorth mwyaf posibl hyd at astudiaethau ôl-raddedig yn rhoi sicrwydd i fyfyrrwyr. Mae uchafswm i derfyn uchaf y swm blynyddol o Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl y gall un myfyriwr ei gael mewn blwyddyn academaidd, a bennir ar gyfer blwyddyn academaidd 22/23 yn £32,546. Gellir defnyddio hwn i dalu am gostau offer arbenigol, cymorth anfeddygol a chostau mwy cyffredinol y mae angen i'r myfyriwr eu hysgwyo. Mae lwfans teithio heb ei gapio ar wahân i hwn bob blwyddyn hefyd.

Gwyddom o ddata ar fyfyrrwyr fod mwy o fyfyrrwyr anabl benywaidd yn cael cymorth na myfyrrwyr anabl gwrywaidd. Gwyddom hefyd fod y rhai sy'n manteisio ar y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl yn tueddu i fod yn y grŵp oedran 18-44 oed, gyda chyfran fwy yn dod o dan y categori 18-24 oed, sy'n awgrymu mai'r rhai sy'n mynd i addysg uwch am y tro cyntaf sydd fwyaf tebygol o gael cymorth o dan y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Gan fod data ar ethnigrwydd yn ddewisol, nid oes gennym ddigon o ddata i ddod i unrhyw gasgliadau mewn perthynas â'r grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o gael y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl neu gael eu heffeithio gan y newid arfaethedig.

Er y bydd y newid cyffredinol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr holl fyfyrrwyr sy'n mynd drwy'r broses ymgeisio ar gyfer y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl, rydym wedi nodi nifer o effeithiau bach posibl y gellid eu hystyried yn negyddol ac y bydd angen eu lliniaru a/neu eu monitro.

Gostyngiad yn y dewis o ddarparwr gwasanaethau: Ar hyn o bryd mae'r myfyriwr yn gyfrifol am ddewis y darparwr a fydd yn asesu ei anghenion astudio o sylfaen fawr o gyflenwyr ledled y DU. Bydd yn gwneud hynny drwy swyddogaeth chwilio a gedwir ar wefan .gov. Mae'r 'gofrestr' hon yn cael ei chynnal gan Adran Addysg y DU ar gyfer gwasanaethau Cyllid Myfyrrwyr Cymru a Cyllid Myfyrrwyr Lloegr. Mae'n rhaid i ddarparwr ar y gofrestr ymrwymo i delerau ac amodau safonol gofynnol er mwyn gallu cynnig eu gwasanaethau i fyfyrrwyr a ariennir gan y Llywodraeth. O dan y trefniadau newydd, bydd myfyrrwyr sy'n cael

cymorth gan wasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cael eu cefnogi gan gyflenwr arweiniol sy'n gyfrifol am Gymru.

Caiff y gostyngiad yn y dewis ei liniaru gan ddarparwr gwasanaeth newydd Cymru sy'n gweithredu ledled Cymru, gan ddarparu canolfannau asesu ar hyd a lled y wlad er mwyn sicrhau asesiadau o anghenion astudio mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r myfyriwr. Bydd y cyflenwr arweiniol sy'n gyfrifol am Gymru yn cysylltu â'r myfyriwr. Bydd y myfyriwr yn parhau i gael dewis pryd a ble y bydd yn cael ei asesiad, hy yn agos i'w gartref, yn agos i'w brifysgol neu mewn lleoliad arall sy'n fwy addas iddynt. Os bydd y berthynas rhwng yr asesydd a'r myfyriwr yn chwalu, bydd y cyflenwr arweiniol yn neilltuo asesydd gwahanol. Os bydd myfyriwr yn dewis cael ei asesiad y tu allan i Gymru, gall ei anghenion gael eu diwallu gan y cyflenwr arweiniol yn yr ardal newydd. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfywr yn sicrhau bod yr wybodaeth am y myfyriwr yn cael ei throsglwyddo'n ddiraffferth er mwyn caniatáu i'r cyflenwr newydd ymgysylltu'n uniongyrchol â'r myfyriwr heb greu dwbl y gwaith. Bydd gan y cyflenwr arweiniol systemau ar waith i reoli'r berthynas â'r myfyriwr er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwasanaeth o safon. Pennwyd y gofynion gwasanaeth a'r dangosyddion perfformiad yn y contract i sicrhau cydraddoldeb ac ansawdd y gwasanaeth. Bydd perfformiad y gwasanaeth yn cael ei fonitro gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywr yn wythnosol, yn fisol ac yn flynyddol. Bydd unrhyw gŵyn yn cael ei goruchwyllo gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywr a Llywodraeth Cymru fel rhan o fesurau perfformiad contractau. Un o ofynion y contract yw mai anghenion y myfyriwr sy'n dod yn gyntaf.

Hyd nes y bydd canlyniad y broses gaffael yn hysbys, ac y cytunir ar y cyflenwr arweiniol sy'n gyfrifol am Gymru, ni fydd y rhwydwaith o is-ddarparwyr a/neu bartneriaid cyflenwi sylfaenol yn hysbys. Cydnabyddir y bydd golwg wahanol ar bethau yn y dyfodol ac efallai na fydd darparwyr asesu presennol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u lleoli mewn prifysgolion, yn rhan o'r model cyflenwi newydd. Fodd bynnag, bydd disgwyl i'r cyflenwr arweiniol sy'n gyfrifol am Gymru weithio'n agos gyda phob prifysgol yng Nghymru a'u gwasanaethau anabledd. Bydd hyn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael rhaglen ddi-dor o gymorth gan y darparwr gwasanaeth Lwfans i Fyfywr Anabl a gwasanaethau cymorth anabledd eu prifysgol lle bo hynny'n berthnasol. Bydd adborth gan fyfyrwyr mewn perthynas â chael asesiadau o anghenion astudio yn cael ei fonitro'n rheolaidd a rhoddir gwybod am yr adborth i Lywodraeth Cymru.

Colli darparwyr gwasanaethau: Cydnabyddir y bydd golwg wahanol iawn yn y dyfodol ar ddarpariaeth gwasanaeth y Lwfans i Fyfywr Anabl ar gyfer asesiadau o anghenion astudio, technoleg gynorthwyol a hyfforddiant technoleg gynorthwyol yn dilyn contractio. Mae perygl y bydd cyflenwyr presennol nad ydynt yn rhan o'r model cyflenwi newydd yn tynnu'n ôl o'r farchnad gan achosi anfantais i fyfyrwyr sy'n cael cymorth ar hyn o bryd. Er mwyn lliniaru hyn, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfywr yn monitro perfformiad cyflenwyr presennol ar ôl dyfarnu contractau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymiadau i fyfyrwyr y maent yn darparu cymorth iddynt ar hyn o bryd. Os bydd hi'n anymarferol i

gyflenwr weithredu neu ei fod yn dewis gadael y farchnad Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl cyn i fyfyriwr gael ei raglen gymorth lawn, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn trosglwyddo'r myfyriwr i gyflenwr priodol sydd wedi'i gontractio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael gwybod am unrhyw achos lle mae hyn yn digwydd er mwyn sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.

Gostyngiad canfyddedig yn y o dewis o gymorth anfeddygol: Nid yw'r newid hwn yn effeithio ar ddarparu cymorth anfeddygol. Bydd yn rhaid i'r cyflenwr arweiniol newydd sy'n gyfrifol am Gymru ddilyn y prosesau presennol a chyflwyno 2 ddyfynbris i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr ar gyfer cymorth anfeddygol lle bo hynny'n briodol. Gall aseswyr barhau i ddewis o'r gofrestr cymorth anfeddygol a gyhoeddir ar wefan .gov neu, os oes gan y myfyriwr berthynas y mae am ei chynnal, ac sy'n addas yn unol â'r canllawiau ar gymorth anfeddygol, ystyrir cadw'r cymorth. Mynegwyd pryderon y bydd lleihau nifer y canolfannau asesu anghenion a all ddewis darparwyr cymorth anfeddygol yn lleihau'r darparwyr cymorth anfeddygol hynny sy'n cael eu dewis oherwydd eu bod yn gyfarwydd neu oherwydd trefniadau ailadrodd busnes. Caiff hyn ei liniaru drwy ganllawiau clir a ddarperir i'r cyflenwr newydd a thrwy fonitro'r ddarpariaeth. Os bydd darparwyr cymorth anfeddygol yn dewis gadael y farchnad, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn sicrhau nad yw'r myfyriwr o dan anfantais a'u bod yn parhau i gael cymorth gyda darparwr arall lle bo angen. Rydym yn derbyn y gall fod rhywfaint o darfu ar y myfyriwr os yw ei ddarparwr cymorth anfeddygol am roi'r gorau i ddarparu cymorth, ond rhagwelir mai prin iawn fydd yr achosion hyn.

Gwarant ac Yswiriant ar gyfer offer a brynwyd drwy'r Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl: Ar hyn o bryd, mae myfyrrwyr yr argymhellir offer arbenigol iddynt hefyd yn cael gwarant ac yswiriant ar gyfer yr eitem. Telir cost yr eitem, y warant a'r yswiriant gan eu Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Os oes rhywbeth yn bod ar yr eitem, mae'r myfyriwr yn gyfrifol am gysylltu â'r darparwr yswiriant a threfnu i drwsio'r eitem neu gael un newydd, gan gynnwys benthyg eitem os oes angen. O dan y trefniadau newydd, os bydd myfyriwr yn cael problem gyda'r eitem(au) maent yn cysylltu â'r cyflenwr newydd sy'n gyfrifol am Gymru a fydd yn gyfrifol am ddatrys unrhyw broblemau, gan gynnwys dod o hyd i eitem fenthyg i'w defnyddio dros dro lle bo hynny'n briodol. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn trefnu i gostau'r gwaith trwsio ac ati gael eu talu o dan Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl y myfyriwr lle bo hynny'n briodol. Pan fydd myfyriwr wedi dewis uwchraddio ei offer, a'i fod wedi dewis peidio â chymryd ei yswiriant ei hun, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn trefnu i gyfran o'r gost honno gael ei thalu o dan y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl y myfyriwr lle bo hynny'n briodol.

Yn dibynnu ar raddfa'r gwaith trwsio y telir amdano, un effaith negyddol efallai yw y bydd myfyrrwyr yn talu mwy am atgyweiriadau neu eitemau newydd na phe baent wedi talu am warant ac yswiriant ymlaen llaw yn unol â'r trefniant presennol. Fodd bynnag, mae manteision gwneud y newid hwn yn golygu y bydd gan y mwyafrif helaeth o fyfyrrwyr lai o gostau cyfarpar ymlaen llaw. Mae data gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn dangos mai dim ond cyfran fach iawn o fyfyrrwyr sydd angen defnyddio eu gwarant a'u yswiriant a

thrwy symud i fodel lle gwneir taliad yn ôl angen, mae'n galluogi myfyrwyr i gadw mwy o'u Lwfans i Fyfywrwr Anabl i dalu am gostau cymorth.

Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwr yn monitro cyfradd yr hawliad mewn perthynas â diffygion a gwaith atgyweirio sydd ei angen ar fyfywrwr i sicrhau bod y newid yn sicrhau gwerth am arian i'r myfyriwr ac o ran arian cyhoeddus. Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd myfyriwr yn cyrraedd uchafswm ei lwfans ariannol ar gyfer cymorth o dan y Lwfans i Fyfywrwr Anabl, pan fydd hyn yn digwydd, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwr yn ystyried y ffordd orau o sicrhau bod gan y myfyriwr yr offer sydd ei angen arno i barhau i astudio drwy drafod â Llywodraeth Cymru. Bydd gan bob eitem, yn ddiodyn, warant gan y gwneuthurwr. Mae rhoi cyfrifoldeb ar y cyflenwr sy'n gyfrifol am Gymru a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwr i drefnu bod eitem y myfyriwr yn cael ei thrwsio neu ei fod yn cael un newydd yn ysgafnhau'r baich gweinyddol ar y myfyriwr.

Pa rwystrau, os o gwbl, y mae pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu? A all y rhwystrau hyn gael eu lleihau, eu dileu, eu lliniaru?

Mae'r gwasanaeth dan gontract wedi'i gynllunio i ddileu'r rhwystr gweinyddol a osodir ar y myfyriwr ar ôl iddo gael ei ystyried yn gymwys i gael cymorth y Lwfans i Fyfywrwr Anabl. Yn ôl ymchwil a wnaed gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwr, mae myfyrwyr anabl yn gweld proses y Lwfans i Fyfywrwr Anabl yn gymhleth ac yn hir iawn. Mae myfyrwyr â chyflyrau iechyd meddwl wedi dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd mynd drwy lefelau lluosog y broses lle mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i apwyntiadau a'u trefnu ar gyfer asesiadau a chymorth yn uniongyrchol gyda'r cyflenwyr eu hunain. Ar gyfer lefel gyfartalog y cymorth (asesu, offer a hyfforddiant technoleg gynorthwyol i ddefnyddio'r offer), gallai fod o leiaf dri chwmni gwahanol y bydd angen cysylltu â nhw. Mae hyn yn aml yn gwaethygu'r amodau, gan achosi i fyfyrwyr roi'r gorau i broses y Lwfans i Fyfywrwr Anabl sy'n golygu nad ydynt byth yn cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. Mae data gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfywrwr yn awgrymu nad yw hyd at 30% o fyfyrwyr yr ystyrir eu bod yn gymwys i gael cymorth yn symud ymlaen i gael cymorth¹. Nid yw'r rhwystredigaethau wedi'u cyfyngu i'r rhai â chyflyrau iechyd meddwl. Mae nifer mawr o wahanol fyfyrwyr anabl wedi nodi problemau gyda'r broses bresennol. Gall oedi wrth drefnu cymorth yn aml olygu na fydd y cymorth ar gael pan fydd y myfyriwr yn dechrau ei gwrs, neu weithiau ddim nes y bydd yng nghanol ei gwrs.

Bydd y trefniadau newydd yn dileu'r baich gweinyddol a roddir ar y myfyriwr ar ôl iddo gael cadarnhad ei fod yn gymwys. Bydd y cyflenwr newydd sy'n gyfrifol am Gymru yn cysylltu â'r myfyriwr ac yn trefnu'r asesiad o anghenion astudio ac yn cydlynu unrhyw offer a chymorth

¹ Data y cyfeirir ato yn nogfen gaffael Ein Hanghenion yn nodi 57,546 o geisiadau am y Lwfans yn 20/21 o gymharu â thua 40,000 o fyfyrwyr sy'n derbyn cymorth. Mae'r gwahaniaeth yn y ddau ffigur yn cynnwys y rhai sy'n dewis peidio â dechrau eu cwrs a'r rhai sy'n cael digon o gymorth gan y darparwr AU i beidio â manteisio ar y Lwfans.

hyfforddi a ddyfernir ar ôl yr asesiad. Ni fydd yn ofynnol i'r myfyriwr gysylltu â nifer o gyflenwyr i drefnu'r cymorth hwn. Wrth gwrs, byddant wedi dod i gytundeb â'r cyflenwr y cysylltwyd ag ef ynghylch amser a hyd y cymorth cyn i'r darparwr gwasanaeth ymgysylltu â chyflenwyr ar ran y myfyriwr, a bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu drwy gydol y broses i roi cadarnhad a sicrwydd iddo.

Mae dyluniad y broses newydd hefyd yn ceisio cyflwyno egwyddorion rhannu data rhwng y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr a'r darparwyr dan gontract. Ar hyn o bryd, bydd yn rhaid i fyfyriwr rannu unrhyw wybodaeth y mae wedi'i rhoi i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr am ei amhariad gyda'r asesydd anghenion astudio ar wahân. Mae hyn yn achosi dwbl y gwaith a gall greu baich diangen, a chostau diangen weithiau, i'r myfyriwr. Bydd y trefniadau newydd yn golygu bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr yn rhannu'n uniongyrchol â'r cyflenwr arweiniol gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynnal asesiad llawn heb i'r myfyriwr orfod darparu unrhyw beth eto. Bydd y myfyriwr yn darparu tystiolaeth unwaith ar ddechrau gwasanaeth cymorth di-dor.

Ymhlith y rhwystrau yr ydym yn ceisio eu dileu gyda'r newid hwn mae'r amodau straen a phryder presennol, neu yn wir greu rhai newydd. Mae ymchwil ar fyfyrrwyr wedi dangos bod gan fyfyrrwyr lefelau amrywiol o allu i gyfathrebu a threfnu ac mae rhai nad ydynt yn ddigon hyderus i ymgysylltu ag eraill, yn enwedig pan fo angen ymgysylltu â sawl sefydliad ar yr un adeg, neu ar adegau gwahanol, a chyda gwahanol bobl bob tro. Mae oedi yn y broses yn creu rhwystrau ychwanegol i fyfyrrwyr a gall olygu nad ydynt yn cael eu cymorth mewn pryd ar gyfer dechrau eu cwrs neu eu bod yn methu sicrhau eitemau penodol o gymorth o gwbl; mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i astudio. Er mai'r myfyriwr fydd yn gyfrifol o hyd am fynychu asesiad o anghenion astudio ac am ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant technoleg gynorthwyl a argymhellir, bydd y rhwystrau a nodwyd o ran y gofynion gweinyddol o drefnu apwyntiadau a darparu cymorth ac ati i gyd yn cael eu dileu drwy'r newid hwn yn y broses. Bydd y cyflenwr arweiniol hefyd yn cynnal perthynas â'r myfyriwr drwy gydol ei daith Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl er mwyn sicrhau bod y myfyriwr yn ymgysylltu'n weithredol â'r cymorth a ddyfernir a bod ei anghenion cymorth yn parhau i fod yn gyfredol. Bydd gan y myfyriwr un pwynt cyswllt os yw'n cael unrhyw faterion neu broblemau.

Sut fyddwch chi'n gwybod a yw eich darn o waith yn llwyddiant?

Mae cynllunio ar gyfer mesurau perfformiad y contract yn dangos y gellir lleihau taith y cwsmer yn sylweddol. Bydd gweithredu darpariaeth dan gontract yn llwyddiannus nid yn unig yn arwain at leihau hyd taith cwsmeriaid Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl ond hefyd at leihau nifer y myfyrrwyr sy'n rhoi'r gorau i'r broses ar ôl dyfarnu cymhwysra.

Cynhelir arolygon myfyrrwyr rheolaidd i fonitro cyfraddau bodlonrwydd myfyrrwyr sy'n mynd drwy'r broses. Bydd gan gyflenwyr dan gontract ddangosyddion perfformiad allweddol hefyd i gynnal gwasanaeth o ansawdd i fyfyrrwyr a gymeradwywyd ar gyfer y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl a sicrhau eu bod yn cael eu hasesiad o anghenion astudio o fewn yr

amserlen y cytunwyd arni, gan leihau nifer y rhai sy'n gadael rhwng y broses ymgeisio a'r broses asesu.

Er nad yw'n ganlyniad uniongyrchol y bydd y contract hwn yn ei fonitro, ni all cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar gymorth y Lwfans i Fyfirwyr Anabl ond arwain at ganlyniadau gwell i fyfirwyr anabl sy'n cael ac yn cwblhau addysg uwch.

Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchoddedig:

Nodwedd neu grŵp gwarchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Y rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lleihau'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Yn gyffredinol, nid oes unrhyw effaith er bod y data yn awgrymu bod mwy o bobl ifanc 18–24 oed yn manteisio ar y Lwfans na'r rhai 25+ oed. Felly bydd y newid i'r broses yn cael mwy o effaith ar bobl ifanc 18-24 oed.	Nid oes cyfyngiad oedran ar fyfirwyr sy'n gwneud cais am y Lwfans, gall pob myfyriwr cymwys sy'n dilyn cwrs dynodedig wneud cais am gymorth y Lwfans. Mae oedran y rhai sy'n manteisio ar y Lwfans yn dangos oedran y rhai sy'n mynychu'r brifysgol yn fwy cyffredinol.	Ddim yn berthnasol
Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'r rhwystrau sy'n analluogi pobl)	Effaith gadarnhaol	Bydd y newid yn gwella'r broses yn sylweddol i fyfirwyr anabl sy'n cael cymorth y Lwfans. Bydd y broses yn gyflymach a bydd llawer llai o faich gweinyddol yn cael ei roi arnynt o ganlyniad i'r newid. Rhaid i	Ddim yn berthnasol

<p>sy'n wynebu gwahanol fathau o rwystrau, neu'r ffordd y gellid ei ddefnyddio'n anfwriadol i ddileu'n rhagweithiol yr amhariadau hynny)</p>		<p>ddarparwyr y cysylltir â hwy ddarparu unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar y myfyriwr i hwyluso'r broses a darparu cymorth parhaus yn ystod eu hastudiaethau lle bo angen.</p>	
<p>Ailbennu Rhywedd (y broses o drawsnewid a phobl Drawsryweddol)</p>	<p>Dim effaith</p>	<p>Bydd myfyrwyr yn cael eu cefnogi drwy broses y Lwfans yn unol â'r rhywedd y maent yn ei arddel</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>
<p>Beichiogrwydd a mamolaeth</p>	<p>Dim effaith</p>	<p>Bydd lefel y gwasanaeth a geir un fath â'r holl fyfyrwyr eraill.</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>
<p>Hil (gan gynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid)</p>	<p>Dim effaith</p>	<p>Bydd lefel y gwasanaeth a geir yr un fath â'r holl fyfyrwyr eraill. Dim ond i fyfyrwyr cymwys y bydd y gwasanaeth ar gael, felly bydd yr holl wiriadau tystiolaethol ar gyfer cymhwystra a phreswylid eisoës wedi'u cwblhau. Mae Hil yn faes dewisol nad yw wedi'i gysylltu â'r cais am gymorth i fyfyrwyr neu gymorth o dan y Lwfans.</p> <p>Mae tîm prosesu Cyllid Myfyrwyr Cymru yn</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>

		<p>datblygu canllawiau newydd mewn perthynas â myfyrwyr sydd â ffordd nomadaidd o fyw er mwyn sicrhau nad yw unrhyw gais am dystiolaeth o amhariad neu breswylid yn effeithio'n anghymesur arnynt.</p> <p>At hynny, bydd dyluniad y ddarpariaeth a gaiff ei chontractio yn cynnwys cynnig lle gall yr asesydd ddefnyddio disgresiwn mewn perthynas â lleoliad yr asesiad er mwyn sicrhau bod anghenion y myfyriwr yn cael eu diwallu.</p>	
Crefydd, cred a dim cred	Dim effaith	Grant yw'r Lwfans, nid benthyciad sy'n arwain at log, felly gall unrhyw fyfyrwr cymwys gael mynediad ato.	Ddim yn berthnasol
Rhyw / Rhywedd	Dim effaith	Mae'r data yn awgrymu bod mwy o fenywod yn manteisio ar y Lwfans na dynion. Yn ddiodyn felly, bydd y newid i'r broses yn effeithio'n fwy ar fenywod sy'n manteisio ar gymorth y Lwfans nac ar ddynion.	Ddim yn berthnasol

Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol)	Dim effaith	Nid yw'r lefel hon o ddata yn cael ei chasglu o'r broses ymgeisio. Bydd pob myfyriwr yn cael ei drin yn barchus a heb ragfarn na gwahaniaethu	Ddim yn berthnasol
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim effaith	Bydd pob myfyriwr cymwys yn cael yr un safon o wasanaeth	Ddim yn berthnasol
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Ddim yn berthnasol	Mae'r Lwfans ar gael i fyfyrwyr sy'n cael cymorth AU – yn gyffredinol i gyd dros 18 oed er, gan y gellir rhoi cymorth y Lwfans ar waith cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd, gall rhai myfyrwyr (yn dibynnu ar eu dyddiad geni) fod yn cael cymorth yn 17 oed	Ddim yn berthnasol
Cartrefi incwm isel	Dim effaith	Nid yw'r Lwfans yn seiliedig ar brawf modd, mae'r cymorth yn dibynnu ar anghenion unigol y myfyriwr sy'n gysylltiedig ag astudio ac nid ag incwm ei aelwyd	Ddim yn berthnasol